AILDDECHRE (DRACHEFN)

Fe ddaethost o'r gorffennol
Fel breuddwyd hudol aur
Yn hafaidd yn yr Hydref
Yn llachar fel y lloer
Fe ddest fel awel dros y grug
Fe ddest fel glesni ar y brig
Ac er fod y blynyddoedd
Yn ysgafn ar dy gefn
Mi wn yn nyfnder fy nghalon
Fod y cyfan yn ailddechre drachefn.

Rwyn ofni bod yn agos
Rwyn dychryn bod yn bell
Synhwyraf yn dy gwmni
Fod yna ddyddie gwell
Ofni cydio yn y cyfle cu
Ofni clywed dy groesawiad di
Ac er fy mod yn derbyn
Fod pwrpas yn y drefn
Dwy hefyd gorfod derbyn
Pod y cwbwl yn ailddechre drachefn.

O daeth y diwedd ar y cysur yn fy myd
Ond daeth cysur efo'r hud
Yn holl newydd i fy myd
Rwy' am ddilyn fy ffawd
A gorwedd yn dy gwmni o hyd.

© Geraint Griffiths 1988.